**Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai LGH 03-03(p.2)**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 12 Chwefror 2003

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Teitl:** Y Mesur Cyfiawnder Troseddol - Ei oblygiadau i Awdurdodau Lleol Cymru

## Diben

1. Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am oblygiadau'r Mesur Cyfiawnder Troseddol i awdurdodau lleol Cymru.

## Crynodeb

2. Nid oes unrhyw ystyriaethau sy'n benodol i Gymru nac unrhyw oblygiadau i awdurdodau lleol Cymru. Er hyn, mae'r ddogfen hon yn amlinellu prif ddarpariaethau'r Mesur er gwybodaeth i'r Pwyllgor. Darperir y ddogfen hon yn unol â chais y Pwyllgor ac nid oes angen i'r Aelodau gymryd unrhyw gamau na gwneud unrhyw benderfyniadau.

## Y Cefndir

### Y Mesur Cyfiawnder Troseddol

3. Cyflwynwyd y Mesur Cyfiawnder Troseddol i Dy'r Cyffredin ar 21 Tachwedd 2002. Diben y Mesur yw diwygio trefniadau dedfrydu a gweithdrefnau troseddol.

4. Caiff y broses ddedfrydu ei diwygio i sicrhau bod y gosb yn cyd-fynd â'r drosedd. Cyflwynir mathau newydd o ddedfrydau i amddiffyn y cyhoedd rhag troseddwyr peryglus, i beri bod llai o bobl yn aildroseddu ac i fynd i'r afael â throseddwyr ifanc. Bydd y Mesur yn sicrhau bod modd dwyn ail achos yn erbyn pobl na chafwyd yn euog o droseddau difrifol, a hynny pan ddaw tystiolaeth newydd a grymus i'r amlwg. Bydd hefyd yn symleiddio'r rheolau sy'n ymwneud â thystiolaeth er mwyn i'r barnwr a'r rheithgor glywed yr holl ffeithiau, gan gynnwys unrhyw ddedfrydau perthnasol eraill sydd gan y diffynnydd.

5. Daw'r Mesur yn sgil Papur Gwyn, 'Cyfiawnder i Bawb', sy'n amlinellu'r cynlluniau ar gyfer y

system cyfiawnder troseddol, a hynny o atal torcyfraith i gosbi ac ailsefydlu troseddwyr. Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar ddiwygio gweithdrefnau'r llysoedd a gweithdrefnau dedfrydu, er mwyn cyflymu achosion llys ac er mwyn rhoi dedfrydau eglur, cyson a phriodol. Roedd y Papur Gwyn yn deillio o argymhellion dwy ddogfen ymgynghori: *Review of the Criminal Courts of England and Wales* gan Syr Robin Auld (2001) a *Making Punishment Work: report of a review of the sentencing framework of England and Wales* (2001) gan John Halliday.

6. Mae'r Mesur yn cynnwys yr argymhellion a ganlyn:

- Peri bod llai o bobl yn aildroseddu tra'u bod ar fechnïaeth trwy roi grym i'r heddlu bennu amodau'r fechnïaeth cyn dwyn cyhuddiad; estyn hawl erlynwyr i apelio yn erbyn mechnïaeth;
- Paratoi achosion cryfion cyn eu dwyn i'r llys trwy ganiatáu i Wasanaeth Erlyn y Goron bennu'r cyhuddiad a gwella'r broses ar gyfer datgelu gwybodaeth yr erlynwyr a'r diffynyddion;
- Dwyn achos i'r llys yn gyflym trwy awgrymu'r ddedfryd debygol i annog diffynnydd i bledio'n euog yn gynnar, ac estyn grym dedfrydu'r ynadon i 12 mis;
- Peri bod llai o gyfle i'r sawl a gyhuddir 'chwarae â'r system' ac osgoi cyfiawnder os yw'n euog, a hynny trwy ganiatáu i dystiolaeth y cafwyd adroddiad arni gael ei defnyddio a thrwy wella'r broses ar gyfer datgelu tystiolaeth diffynyddion ac erlynwyr. Byddai modd defnyddio cymhelliad a sancsiynau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio;
- Symleiddio a moderneiddio'r dull cyfredol o ymdrin â thystiolaeth;
- Peri bod modd i lai o bobl gael eu heithrio rhag gwasanaethu ar reithgor fel bod mwy ar gael;
- Llunio darpariaethau ar gyfer cynnal achosion â barnwr yn unig, a hynny mewn achosion twyll anodd, achosion lle y ceir gwybodaeth ariannol gymhleth ac achosion sy'n ymwneud â bygwth aelodau rheithgor;
- Sicrhau bod modd i dystion roi tystiolaeth trwy gysylltiadau teledu byw;

- Estyn dedfrydau troseddwyr treisgar a throseddwyr rhyw;
- Sicrhau bod pobl sy'n troseddu dro ar ôl tro yn cael dedfrydau sy'n fwyfwy llym;
- Darparu cosbau mwy eglur a chadarn yn y gymuned;
- Peri i'r fframwaith dedfrydu ganolbwyntio ar ostwng torcyfraith trwy ailsefydlu troseddwyr, atal pobl rhag troseddu a gwneud iawn am droseddau. Bydd hyn yn mynd law yn llaw â'r prif nod o amddiffyn y cyhoedd a chosbi troseddwyr;
- Atgyfnerthu'r heddlu yn y frwydr yn erbyn torcyfraith trwy ddiwygio Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE);
- Estyn darpariaeth y gorchymyn rhoi prawf a thriniaeth ar gyfer cyffuriau i sicrhau bod modd mynd i'r afael â mwy o droseddwyr sy'n gaeth i gyffuriau. O wneud hynny, byddai llai o droseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau'n digwydd.

7. Ceir crynodeb o fesurau'r Mesur yn Atodiad A. Disgwylir i'r Mesur ddod yn ddeddf yn ystod y Sesiwn Seneddol hwn.

8. Ar 21 Ionawr, cyflwynwyd y Mesur Troseddau Rhyw, sy'n gysylltiedig â'r Mesur Cyfiawnder Troseddol. Mae'r Mesur yn ymwneud â dedfrydu troseddwyr rhyw, atgyfnerthu cofrestr y troseddwyr rhyw, cyflwyno trosedd 'baratoi' newydd a llunio trefniadau aml-asiantaeth i amddiffyn y cyhoedd. Amlinellir y manylion yn Atodiad B.

**Deddfwriaeth newydd arall**

9. Yn Araith y Frenhines 2002, amlinellwyd y Mesurau a ganlyn:

- **Mesur y Llysoedd** - fe'i cyflwynwyd ar 28 Tachwedd i wella ac i foderneiddio System y Llysoedd. Ei nod yw hybu'r llysoedd i fod yn fodern ac yn effeithlon, peri bod llai o oedi yn y system a sicrhau eu bod yn berthnasol i'w cymunedau ac yn ateb gofynion y bobl sy'n eu defnyddio. Bydd yn dod â llysoedd ynadon a Llys y Goron ynghyd er mwyn iddynt gydweithio'n effeithiol fel un sefydliad. Bydd sancsiynau newydd yn caniatáu i'r llysoedd fynd ati'n fwy effeithlon i orfodi pobl i dalu dirwyon.
- **Y Mesur Trwyddedu** - fe'i cyflwynwyd ar 14 Tachwedd a bydd yn cael gwared ar oriau

agor penodol ac yn cyflwyno ystod o fesurau i leihau nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n deillio o yfed alcohol. Bydd yn amddiffyn y cyhoedd, yn lleihau anhrefn ac yn annog diwylliant mwy gwaraidd mewn tafarnau, bariau a bwytai, ynghyd ag amddiffyn plant yn well. Ceir braslun o'r Mesur yn adroddiad ysgrifenedig y Gweinidog.

- **Y Mesur Trosedd (Cydweithredu Rhyngwladol)** - fe'i cyflwynwyd ar 19 Tachwedd i roi ar waith nifer o ymrwymiadau'r UE sy'n weddill ym maes cydweithredu rhwng yr heddlu a systemau barnwrol. Bydd yn sicrhau bod modd cydweithio'n rhyngwladol i fynd i'r afael â thorcyfraith, gan gynnwys gwerthu cyffuriau, ac yn moderneiddio'r trefniadau ar gyfer rhoi cymorth rhyngwladol i ddal troseddwyr.

- **Y Mesur Ymddygiad Gwrthgymdeithasol** - Mae papur gwyn yn cael ei lunio ar ffyrdd o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys camau i ddadfeddiannu tenantiaid gwrthgymdeithasol yn haws ac i roi mwy o ddirwyon yn y fan a'r lle am droseddau bach.

**Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor Pwnc**

10. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys y ddogfen hon.